

2023 Rhif (Cy.)

2023 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Cyffordd 25A (Grove Park) i
Gyffordd 26 (Malpas),
Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau
Dros Dro) 2023

The M4 Motorway (Junction 25A
(Grove Park) to Junction 26
(Malpas), Newport) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2023

Gwnaed 29 Awst 2023

Made 29 August 2023

Yn dod i rym 8 Medi 2023

Coming into force 8 September 2023

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd a'r gweithlu.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be prohibited because of the likelihood of danger to the public and the workforce.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 25A (Grove Park) i Gyffordd 26 (Malpas), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Medi 2023.

Title and commencement

1. The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 25A (Grove Park) to Junction 26 (Malpas), Newport) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2023 and this Order comes into force on 8 September 2023.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn:

Interpretation

2. In this Order:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 8 Medi 2023 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r draffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Awst 2023

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Gwahardd Pob Cerbyd Dros Dro

1. Y darn o gerbyttffordd tua’r gorllewin traffordd yr M4 sy’n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 25A (Grove Park) hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Malpas).

2. Y darn o gerbyttffordd tua’r dwyrain traffordd yr M4 sy’n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Malpas) hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 25A (Grove Park).

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales Motorway;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 20:00 hours on the 8 September 2023 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 29 August 2023

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE

Temporary Prohibition of all Vehicles

1. The length of the westbound carriageway of the M4 motorway that extends from the physical nosing of the westbound exit slip road at Junction 25A (Grove Park) to the physical nosing of the westbound entry slip road at Junction 26 (Malpas).

2. The length of the eastbound carriageway of the M4 motorway that extends from the physical nosing of the eastbound exit slip road at Junction 26 (Malpas) to the physical nosing of the eastbound entry slip road at Junction 25A (Grove Park).

3. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Malpas) sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chyfnewidfa Malpas yr A4051 hyd at ei chysylltiad â cherbyttffordd tua'r dwyrain traffordd yr M4.

4. Y darn cyfan o ffordd gyswllt tua'r de yr A449 i ffordd ymuno tua'r gorllewin yr M4 wrth Gyffordd 24 (Coldra) o'r man lle y mae'n ymwahanu oddi wrth lôn neilltuedig tua'r dwyrain yr M4 hyd at gylchfan Cyffordd 24 (Coldra) yr A449.

3. The length of the eastbound entry slip road at Junction 26 (Malpas) that extends from its junction with the A4051 Malpas Interchange to its connection with the eastbound carriageway of the M4 motorway.

4. The entire length of the A449 southbound Link to the M4 westbound entry slip road at Junction 24 (Coldra) from where it diverges from the M4 eastbound dedicated lane to the Junction 24 (Coldra) A449 roundabout.